**LC1250**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

# Gorchymyn Deddf Plant 2004 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2006

Mae’r Gorchymyn hwn yn cychwyn adrannau 25 (Cydweithio i wella lles: Cymru) a 31 (Sefydlu Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant yng Nghymru) Deddf Plant 2004. Fe’i gwneir gyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Yn erthygl 2(2) y testun Saesneg, defnyddir yr acronym LSCB heb esboniad. Er ei fod yn dilyn y pennawd uwchlaw’r adran yn y Ddeddf, nid yw’n cyflawni diben cynnwys y pennawd yn y Gorchymyn, sef esbonio’r adran. Mae’r testun Cymraeg yn defnyddio’r enw llawn ac felly mae’n llawer mwy eglur. Argymhellir fod troednodyn yn cael ei osod i esbonio’r acronym. Gellid gwneud hyn wrth ei gyhoeddi.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

14 Mawrth 2006